



Cynllun Mynnu Prynu (Aspire2Own)...

Beth yw Mynnu Prynu?

Crëwyd y cynllun gan Gyngor Bro Morgannwg a'i gymdeithasau tai partner am ei bod mor anodd yn aml i bobl fforddio prynu cartref am y tro cyntaf. O dan y drefn hon, caiff pobl gofrestru bod ganddynt ddiddordeb mewn prynu eiddo drwy gynllun per-chentyaeth cost isel, un ai ar unwaith ynteu'n ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Bydd cynllun Mynnu Prynu'n rhoi help llaw i rai sy'n methu â chael troedle ar yr ysgol eiddo er eu bod yn sefydlog yn ariannol ac yn gallu codi morgais. Pobl yw'r rhain sydd efallai'n methu â fforddio'r morgais neu'r blaendal sy'n ofynnol ar gyfer prynu ar y farchnad agored.

Beth yw eiddo cynllun perchentyaeth cost isel?

Bydd yr eiddo perchentyaeth cost isel sydd ar gael drwy gynllun Mynnu Prynu'n cael ei ddatblygu ar y cyd â'r Cyngor a landlor-diaid cymdeithasol cofrestredig.

Bydd y rhan fwyaf o eiddo cost isel o'r math hwn yn cael ei weithredu drwy system gydberchen, sy'n rhoi cyfle i rai sy'n prynu cartref am y tro cyntaf gael eiddo am lai na'i bris ar y farchnad agored. Bydd y landlord cymdeithasol yn cadw cyfran o'r eiddo ond ni fydd yn codi tâl ychwanegol ar y prynwr am hynny. Bydd y morgais yn llai o gan-lyniad ac yn fforddiadwy. Gall y prynwr drefnu i ddod yn berchennog llawn bryd bynnag y bydd ei sefyllfa ariannol yn ca-niatáu hynny.

Bydd lleiafswm ac uchafswm incwm yn cael eu gosod a fydd yn dibynnu ar leoliad datblygiadau tai. Gwneir hynny nid yn unig er mwyn sicrhau y bydd ymgeiswyr yn gallu fforddio'r morgais gofynnol, ond hefyd er mwyn cyfyngu'r cynllun i deuluoedd sy'n methu â phrynu ar y farchnad agored.

Ble mae'r eiddo hwn ar gael?

Mae eiddo o'r math hwn fel arfer ar gael mewn datblygiadau tai newydd. Gallai'r rhain fod yn dai sydd wedi'u codi gan adei-ladwyr tai'r farchnad neu gymdeithas tai.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yr oedd eiddo perchen-tyaeth cost isel, yn fflatau ac yn dai, ar gael ym Mhenarth, Llan-fair, Y Bont-faen a'r Barri.

Y flwyddyn nesaf, bydd eiddo perchentyaeth cost isel ar gael yn y datblygiadau canlynol:

- Ucheldir Penarth, Penarth
- The Hedgerows, Y Barri
- St Canna's Green (Fferm Goch), Llangan
- Channel Heights, Trem Echni, Trwyn Y Rhws

Mae rhagor o ddatblygiadau wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol mewn ardaloedd ar draws y Fro. Os oes datblygiadau tai wedi'u cynllunio ar gyfer eich ardal chi, y mae'n werth cysylltu â Mynnu Prynu er mwyn cael gwybod mwy am y cartrefi perchentyaeth cost isel a fydd ar gael.

A fydd eiddo ar gael yn y Fro wledig?

Ar gyfartaledd, y mae prisiau tai'n 40% yn uwch yn y wlad nag mewn ardaloedd trefol, ac er bod mwy o incwm hefyd gan deuluoedd y wlad yn aml, y mae'n dal yn anodd i lawer ohonynt brynu tŷ ar y farchnad agored.

Mae'r Cyngor am ymateb i hyn drwy sicrhau bod eiddo perchen-tyaeth cost isel ar gael mewn datblygiadau tai yn y Fro wledig. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i bobl leol sy'n cynnig am y tai hyn drwy ddatblygu polisïau gwerthu lleol. Yn y modd yma, gall pobl leol aros yn y cymunedau gwledig a'u magodd, lle byddant yn gweithio ac yn gwneud cyfraniad.

“Mae Mynnu Prynu'n helpu pobl i gael troedle ar yr ysgol eiddo.”

Pwy a gaiff gofrestru â Mynnu Prynu?

Caiff unrhyw un wneud cais i Fynnu Prynu am mai cofrestr yn unig yw hi o bobl sydd â diddordeb mewn perchentyaeth gost isel.

Ar ôl ymuno â Mynnu Prynu, ni fydd unrhyw ddyletswydd ar-noch i ymgeisio am y tai sydd ar gael, a chewch aros ar y gofrestr gyhyd ag y mynnoch.

Pan fydd eiddo perchentyaeth gost isel ar gael, ni chewch ymgeisio amdano onibai eich bod yn cydymffurfio â'r meini prawf penodol. Mae'n hanfodol er enghraifft, fod ymgeiswyr un ai'n:

- byw neu'n gweithio yn y Fro, neu'n gallu arddel cysylltiad dyls â'r ardal.
- Dylent fod mewn sefyllfa i godi morgais ond heb yr adnoddau i brynu ar y farchnad agored.

Mae'r cynllun wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd i rai sy'n prynu am y tro cyntaf. Serch hynny, byddwn yn ystyried y meini prawf cymhwyso fesul safle fel y bo cyfle o hyd i rai a fu'n perchen ar eiddo yn y gorffennol gofrestru â Mynnu Prynu.

Cysylltwch â Aspire2Own

Ffôn... (01446) 709476

Ar-lein... www.valeofglamorgan.gov.uk/aspire2own

e-bost... housingstrategy@valeofglamorgan.gov.uk

Llythyr...Vale of Glamorgan Council
Alps Depot
Quarry Road
Wenvoe
CF5 6AA



Dilynwch ni ar Twitter:
@VOGHousing #ValeHousing



Fel ni ar Facebook:
www.facebook.com/VOGHousing



Hwylusydd Tai Gwledig
Rural Housing Enabler

Hwylusydd Tai Gwledig
Elisa Faulkner
01446 709237
efaulkner@valeofglamorgan.gov.uk

Sut mae cofrestru â Mynnu Prynu?

Er mwyn cofrestru, bydd yn rhaid i chi lenwi'r ffurflen briodol. Cewch gopi ohoni ar-lein, ac os bydd angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch y mae pob croeso i chi gysylltu â ni.

Beth ddylwn ei wneud ar ôl cofrestru?

Rhown wybod i chi pan fydd eiddo ar gael yn yr ardal sydd o ddiddordeb i chi. Wedyn cewch benderfynu a ydych chi am wneud cais amdano ai peidio.

Os ydych am gael eich ystyried ar gyfer unrhyw eiddo sydd ar gael, byddwn yn anfon rhagor o wybodaeth a phecyn ymgeisio atoch.

Bydd y wybodaeth a gasglwn drwy gynllun Mynnu Prynu ynglŷn â hoff ardaloedd pobl, maint y tai yr hoffent eu cael a'u hincwm, o gymorth i'r Cyngor gynllunio ar gyfer eiddo perchentyaeth gost isel yn y Fro yn y dyfodol.

